**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o CYSAG a gynhaliwyd yn Arloesedd House Magwyr ar Dydd Gwener, 10 Mehefin, 2016 am 1.30pm**

**MYNYCHWYR:** Y Cynghorydd Sir: E.J. Hacket Pain (Chair)

Cynghorwyr Sir: A. Easson, D. Jones

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Gill Vaisey | Religious Education Adviser |
| Sharon Randall-Smith | Head of Achievement and Attainment |
| Richard Williams | Democratic Services Officer |

**HEFYD YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Roman Catholic Church | Mr. R. Cottrell |
| Baha'I Faith | Mrs. S. Cave |
| Sikh Faith | Mrs. N. Baicher |
| Teachers' Associations | Mr. A. Jones, Ms. S. Perry-Phillips, Mr. S. Oram |
| Co-opted Members | Ms. K. Fitter, Mr. T. Thomas |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorwyr Sir: P. Clarke, J. George, B. Strong, J. George.
Revd. Dr. P. Baines, Mrs. F. Jilani, Mrs. R. Davies, Sister D. O'Donnell.

1. **Etholiad Cadeirydd.**

Etholwyd y Cynghorydd Sir E.J. Hacket Pain fel Cadeirydd.

Cyn bwrw ymlaen â'r cyfarfod, hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod cyn-aelod o'r Pwyllgor wedi darfod. Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor y byddai'n anfon llythyr o gydymdeimlad i'w deulu, ar ran y Pwyllgor.

Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod y Chwaer O'Donnell wedi ymddeol o wasanaethu ar Bwyllgor CYSAG, Ar ran y Pwyllgor, byddai'r Cynghorydd AG yn anfon llythyr at y Chwaer Denise i ddiolch iddi am ei chefnogaeth a'i hymrwymiad i Bwyllgor CYSAG yn ystod ei chyfnod fel Aelod CYSAG.

Ar ran y Pwyllgor, croesawodd y Cadeirydd Mr. Cottrell i'w gyfarfod cyntaf, fel cynrychiolydd newydd yr Eglwys Gatholig.

2. **Apwyntiad Is-Gadeirydd.**

Penodwyd Sue Cave fel Is-gadeirydd.

3. **Datganiadau o Fuddiant**

Nid oedd datganiadau o fuddiant gan yr Aelodau.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o CYSAG a gynhaliwyd yn Arloesedd House Magwyr ar Dydd Gwener, 10 Mehefin, 2016 am 1.30pm**

4. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol.**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar 11eg Mawrth 2016 ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd yn amodol ar gynnwys enwau'r cynrychiolwyr ffydd a chynrychiolwyr yr athrawon, gan fod y rhain wedi'u hepgor.

5. **Diweddariadau ers y cyfarfod diwethaf.**

Derbyniasom y diweddariadau canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

- Roedd y Cynghorydd AG wedi siarad â Phennaeth Ysgol Gynradd Castle Park yn hysbysu'r Pennaeth bod angen defnyddio fersiwn gywir y Lefelau AG o fewn y Rhaglen Incerts. Roedd hefyd wedi ysgrifennu at yr holl ysgolion ynghylch y mater hwn a gofynnodd am adborth i weld a oeddent wedi symud drosodd i'r lefelau cywir.

- Byddai'r Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad yn codi'r mater yng nghyfarfod nesaf y Penaethiaid â'r bwriad i wahodd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg i gyfarfod nesaf Pwyllgor CYSAG yn Nhachwedd 2016.

- Cyfnewidiwyd gohebiaeth rhwng y Cadeirydd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyd-bwyllgor Addysg Cymru ynghylch manylebau'r arholiad newydd. Nodwyd, er bod ymgynghori wedi digwydd gydag ysgolion ynghylch y newidiadau, roedd sawl CYSAG wedi gofyn am ohirio gweithredu'r newidiadau.

  Nodwyd bod rhai ysgolion wedi profi tri newid ar wahân ym manylebau'r arholiad mewn tair blynedd heb ddigon o amser pontio rhyngddynt.

  Penderfynasom fod y Cadeirydd yn ysgrifennu at Gydbwyllgor Addysg Cymru yn gofyn am gyfarfod i drafod y mater hwn ymhellach. Roedd cynrychiolwyr CYSAG Sir Fynwy i gynnwys y Cadeirydd, y Cynghorydd AG, Andrew Jones a Sharon Perry Phillips.

- Cynhelid cynhadledd ar y 4ydd a'r 5ed Gorffennaf 2016 yn Abertawe. Byddai ail ddiwrnod y gynhadledd yn canolbwyntio ar eithafiaeth a radicaleiddio. Gwahoddir aelodau CYSAG i fynychu. Byddai'r Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad yn anfon y wybodaeth i bob ysgol.

- Gallai fod angen newid y dyddiad y byddai CYSAG Sir Fynwy yn croesawu Cymdeithas CYSAGau Cymru, o'r 17eg Mawrth i'r 24ain Mawrth 2017. Roedd gwybodaeth bellach i'w derbyn maes o law.

6. **Cyflwyniad gan Kath Fitter: Diwrnod AG Goetre Fawr.**

Cawsom gyflwyniad gan Kath Fitter ynghylch Gŵyl y Ffyddau a gynhelid yn Ysgol Gynradd Goytre Fawr ym Mawrth 2016.

Hysbyswyd y Pwyllgor o'r canlynol:

- Rhoddwyd cyfle i'r plant brofi sawl ffydd a diwylliant gwahanol.

- Roedd pob aelod o'r ysgol wedi cymryd rhan ac yn ychwanegol at athrawon dosbarth, roedd llawer o ymwelwyr wedi cael eu gwahodd i gynrychioli rhychwant eang o ffyddau a rhannu'u gwybodaeth uniongyrchol gyda'r plant.

- Yn ystod y dydd gweithiodd y plant mewn grwpiau oedran cymysg gan gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyl a gweithgareddau er gwybodaeth..

- Roedd y Diwrnod AG wedi bod yn llwyddiannus iawn a byddai'r ysgol yn ymgymryd â menter o'r fath eto yn y dyfodol.

- Roedd agwedd rhieni i'r Diwrnod AG wedi bod yn gadarnhaol ac yn gefnogol iawn.

- Dywedodd y Cynghorydd AG y byddai'n cyfeirio at y Diwrnod AG yn y Cylchlythyr AG nesaf.

Penderfynasom dderbyn y cyflwyniad a nodi'i gynnwys.

**7. <u>Diweddariad ar Diwrnod AG yn Ysgol Cil-y-coed i blant Blwyddyn 6.</u>**

Cawsom ddiweddariad ynghylch y Diwrnod AG a oedd yn cael ei gynnal yn Ysgol Cil-y-coed ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 ar 28ain Mehefin 2016. Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r holl ysgolion yn derbyn y byddai Ysgol Gynradd Magwyr yn mynychu.

- Cynhelid gweithdai lle byddai nifer o gynrychiolwyr ffydd Pwyllgor CYSAG yn arwain.

- Byddai'r Cynghorydd AG yn anfon manylion pellach at Aelodau CYSAG maes o law.

Penderfynasom dderbyn y cyflwyniad a nodi'i gynnwys.

**8. <u>I dderbyn ac i nodi'r cofnodion drafft o'r cyfarfod CCYSGAGauC o 8fed Mawrth 2016 (ynghlwm).</u>**

Derbyniasom gofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 8fed Mawrth 2016. Wrth wneud hynny, nodwyd y byddai canlyniadau Arolwg Bagloriaeth Cymru ar gael yng nghyfarfod nesaf Cymdeithas CYSAGau Cymru ar 23ain Mehefin 2016.

Penderfynasom dderbyn y cofnodion a nodi'u cynnwys.

**9. <u>I nodi'r dyddiadau o'r cyfarfodydd yn y dyfodol CCYSGAGauC.</u>**

Cynhelir cyfarfod nesaf Cymdeithas CYSAGau Cymru yn Y Rhyl ar 23ain Mehefin 2016.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o CYSAG a gynhaliwyd yn Arloesedd House Magwyr ar Dydd Gwener, 10 Mehefin, 2016 am 1.30pm**

**10. I bleidleisio ar gyfer enwebiadau i'r pwyllgor gwaith CCYSGAGauC. YSTYRIWCH YR ENWEBIADAU CYN Y CYFARFOD A DEWCH YN BAROD I BLEIDLEISIO.**

Wedi ystyried yr enwebiadau i wasanaethu ar Bwyllgor Gweithredol Cymdeithas CYSAGau Cymru, penderfynasom enwebu'r cynrychiolwyr canlynol:

Mary Parry
Huw Stephens
Mathew Maidment

**11. Paratoi ar gyfer cynnal CCYSGAGauC ar 17eg Mawrth, 2017.**

Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol ynghylch paratoadau CYSAG Sir Fynwy ar gyfer croesawu Cymdeithas CYSAGau Cymru ar 17eg Mawrth 2017. Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Bydd angen trefnu coffi a chinio.
- Sicrhau cyfieithydd Cymraeg.
- Anogwyd aelodau CYSAG i drosglwyddo unrhyw syniadau allai fod ganddynt i'r Cynghorydd AG.
- Bydd Cadeirydd Cyngor Sir Fynwy a Chadeirydd Pwyllgor CYSAG Sir Fynwy ar y cyd yn croesawu Cymdeithas CYSAGau Cymru i Sir Fynwy ar 17eg Mawrth 2017.
- Gwahoddir holl aelodau CYSAG Sir Fynwy i fynychu Cymdeithas CYSAGau Cymru ar 17eg Mawrth 2016.

Penderfynasom dderbyn y wybodaeth a nodi'i chynnwys.

**12. Adolygiad Cwricwlwm Llywodraeth Cymru Diweddariad Mai 2016.**

Derbyniasom ddiweddariad o Adolygiad Cwricwlwm Llywodraeth Cymru ar gyfer Mai 2016.

Wrth wneud hynny, mynegwyd pryder fod darpariaeth AG yn cael ei chorffori i mewn i faes Dyniaethau Dysgu a Phrofiad.

Penderfynasom fod y Cynghorydd AG yn cyflwyno adroddiad ynghylch y mater hwn yng nghyfarfod nesaf CYSAG.

**13. Bwletin Newyddion Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAGau). Briffiau gwybodaeth gan aelodau i'w cynnwys yn Fwletin Newyddion Haf CYSAGau.**

- Roedd plant o Ysgol Trefynwy wedi ymweld ag Auschwitz a Krakow yng Ngwlad Pwyl a bu'n brofiad teimladwy iawn i'r athrawon a'r myfyrwyr.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o CYSAG a gynhaliwyd yn Arloesedd House Magwyr ar Dydd Gwener, 10 Mehefin, 2016 am 1.30pm**

- Gwahoddwyd Aelodau CYSAG i fynychu cynhadledd AG / Bagloriaeth yn yr wythnosau i ddod a oedd yn cael ei chynnal yn Ysgol Trefynwy lle cynhelir nifer o weithdai.

- Byddai Ysgol Cil-y-coed yn cynnal cynhadledd debyg ar gyfer ei myfyrwyr Blwyddyn 9 ar y 4ydd Gorffennaf 2016 dros gyfnod o bedwar diwrnod, fel rhan o'r modiwl maent yn ei astudio. Bydd y gynhadledd yn canolbwyntio ar yr agwedd elusennol a chyfiawnder cymdeithasol, lle bydd elusennau'n cael eu harchwilio fel rhan o gwrs myfyrwyr Bagloriaeth Cymru.

- Rhannodd Mrs. Baicher wybodaeth gyda'r Pwyllgor yn amlinellu neges fyd-eang Guru Arjan Dev Ji a'r gwaith roedd ef wedi'i gyflawni. Hysbyswyd ni mai Guru Arjan Dev Ji oedd merthyr cyntaf y ffydd Sikh. Bu merthyrdod Guru Arjan Dev Ji ar yr 8fed Mehefin 2016.

- Crynhodd Guru Arjan Dev Ji y Guru Granth Sahib.

- Adeiladodd dŷ ar gyfer y gwahangleifion.

- Fe'i harteithiwyd ac fe'i dedfrydwyd i farwolaeth gan y Mughal Emperor Jahangir ac fe'i cyfarchwyd fel merthyr.

**14. Ysgol Gynradd Kymin View.**

Tynnwyd adroddiad Hunanarfarnu Kymin View yn ôl.

**15. Ysgol Gynradd Trellech.**

Derbyniasom adroddiad hunanarfarnu Ysgol Gynradd Trellech.
.

Derbyniodd yr ysgol raddfa 'Da' mewn perthynas â'r holl gwestiynau a amlinellir yn yr adroddiad.

Ystyriwyd yr adroddiad i fod yn un o'r adroddiadau hunanarfarnu gorau roedd y Pwyllgor CYSAG wedi'i dderbyn.

Penderfynasom y dylai'r Cynghorydd Addysg Grefyddol ysgrifennu at y Pennaeth i longyfarch yr ysgol ar dderbyn adroddiad hunanarfarnu mor gadarnhaol.

**16. Ysgol Gynradd Llanfoist.**

Derbyniasom adroddiad hunanarfarnu Ysgol Gynradd Llan-ffwyst.

Derbyniodd yr ysgol raddfa 'Da' mewn perthynas â'r holl gwestiynau a amlinellir yn yr adroddiad.

Roedd hwn yn asesiad da iawn a gyflawnwyd gan yr ysgol.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd ynghylch cyflenwi addysgu AG gan Gynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch, byddai'r Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad yn ymchwilio i'r mater ac yn adrodd nôl mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Penderfynasom y dylai'r Cynghorydd Addysg Grefyddol ysgrifennu at y Pennaeth i longyfarch yr ysgol ar dderbyn adroddiad hunanarfarnu mor gadarnhaol.

**17. <u>Dyddiadau am gyfarfodydd yn y dyfodol:</u>**

Nodwyd y dyddiadau canlynol ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor CYSAG:

15fed Tachwedd 2016 am 1.30pm.

10fed Chwefror 2017 am 1.30pm.

16eg Mai 2017 am 1.30pm.

**Y cyfarfod i ben am 1.25 pm.**